

Gwirio gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghastell-nedd Port Talbot

Yr hyn y gwnaethon ni ei ddarganfod



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dyma fersiwn Hawdd ei Ddeall o: **Gwiriad Sicrwydd CLDT Castell-nedd – Llythyr Canfyddiadau.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gallwch ofyn i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud rydym **ni**, mae'n golygu **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. I gael gwybod mwy, cysylltwch â:

Gwefannau:

arolygiaethgofal.cymru

agic.org.uk



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

[Hawdd ei Ddeall Cymru](#) sydd wedi gwneud y ddogfen hon yn ddogfen hawdd ei deall. [Cliciwch yma i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddl.](#)

Cynnwys

Am yr adroddiad hwn	4
Beth rydym ni'n ei wneud	5
Y ffordd y gwnaethom ni ein gwiriadau	6
Yr hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod.....	8
Pobl	9
Atal.....	16
Partneriaeth	24
Lles	28
Beth sy'n digwydd nesaf	34

Am yr adroddiad hwn



Ni yw **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**.



Rhwng **9 Mehefin 2026 a 11 Mehefin 2026**, fe wnaethom gynnal **Gwiriad Sicrwydd** ar:

- Wasanaethau Cymunedol Anableddau Dysgu Cyngor Castell-nedd Port Talbot a
- Chyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.



Mae **Gwiriad Sicrwydd** yn wiriad i wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau. Mae'r adroddiad hwn yn rhannu'r hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod.

Beth rydym ni'n ei wneud



Rydym ni'n gwirio pa mor dda mae cynghorau a byrddau iechyd yn gwneud eu gwaith ac yn helpu pobl.

Mae ein ffocws ar ba mor dda maen nhw'n gweithio yn y 4 maes hyn:



1. Pobl - Gwneud yn siŵr bod gan bawb lais a rheolaeth yn eu bywyd.



2. Atal - Cadw'r angen am gefnogaeth yn isel ac atal problemau rhag gwaethygu.



3. Partneriaethau - Gweithio'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau da, parhaol.



4. Lles - Amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth, fel eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael eu cefnogi.



Rydym ni'n gwirio a yw gwasanaethau yn dilyn y deddfau hyn:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.
- Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023.

Y ffordd y gwnaethom ni ein gwiriadau

Fe wnaethom ni edrych ar gofnodion 15 o bobl.
Roedd hyn yn cynnwys:



- Gwirio cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol.



- Siarad â'r person, eu teulu, gofalwyr a gweithwyr allweddol.



Fe wnaethom ni hefyd siarad â 21 o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau neu eu gofalwyr.



Fe wnaethom ni siarad â 38 o weithwyr y cyngor a gweithwyr bwrdd iechyd a gwirio dogfennau.

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl

1. Ydych chi'n hoffi'r syniad?

☒ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siŵr

Fe wnaethom gynnal arolygon gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, a gweithwyr cyngor.

Yr hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod



Fe wnaethom ni weld gwaith da yn cael ei wneud. Ac fe wnaethom ni weld rhai pethau sydd angen bod yn well.



Mae yna rai pethau rydym ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd eu gwneud.



Pan fyddwn ni'n dweud **rhaid**, mae hyn yn golygu newidiadau sydd angen eu gwneud i ddilyn y gyfraith.



Pan fyddwn ni'n dweud **dylai**, mae hyn yn golygu newidiadau a fydd yn gwneud pethau'n well ond nad ydynt yn gyfraith.

Gwaith da



Mae arweinwyr wedi dechrau gwella sut mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl.



Mae staff yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwyr. Gallant siarad am sefyllfaoedd anodd a chael cefnogaeth a chynghor.



Mae staff yn cymryd amser i feithrin perthynas dda â phobl. Maen nhw'n dysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae hyn yn helpu staff i ddarparu cymorth sy'n cyd-fynd ag anghenion, dewisiadau a bywydau pobl.



Mae staff yn cael hyfforddiant rheolaidd am bethau fel:

- Cadw pobl yn ddiogel.
- Trin pobl yn deg.
- Rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd gorau.



Mae hyfforddiant a chyfarfodydd gyda rheolwyr yn helpu staff i deimlo'n hyderus. Maen nhw'n cael cyfleoedd i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau.



Mae'r rhan fwyaf o gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol yn dweud wrthym ni am y canlynol mewn perthynas â phobl:

- Bywydau
- Anghenion
- Profiadau
- Dewisiadau



Mae **asesiadau** yn cael eu defnyddio'n dda. Mae **asesiadau** yn gwirio pa anghenion iechyd a chymorth sydd gan bobl.



Mae pobl yn cael eu cefnogi i rannu eu barn mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.



Mae staff yn gwrando ar bobl, teuluoedd, ac eraill sy'n adnabod y person yn dda.



Mae pobl yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cefnogaeth. Mae staff yn parchu eu dymuniadau a'u dewisiadau.



Mae staff yn rhannu gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar bob person.



Dywedodd pobl wrthym fod ganddyn nhw staff iechyd a gofal cymdeithasol da. Mae'r staff yn garedig ac yn barchus. Mae hyn yn helpu pobl i ymddiried mewn gwasanaethau.



Mae staff yn gwneud newidiadau i helpu pobl i gael a defnyddio gwasanaethau yn haws.



Er enghraifft, mae staff iechyd yn gwneud pethau fel rhoi amseroedd apwyntiadau hirach i bobl.



Mae hyn yn helpu pobl i deimlo'n llai pryderus a theimlo llai o straen.



Mae gweithwyr cymdeithasol yn rhoi cyngor arbenigol a chymorth ar gyfer sefyllfaoedd anodd. Maen nhw'n helpu staff i ddilyn y rheolau a gwella gwasanaethau. Mae hon yn ffordd dda o weithio.

Pethau sydd angen bod yn well



Nid yw pobl bob amser yn cael cynnig **eiriolaeth annibynnol** pan fyddan nhw ei angen.



Mae **eiriolaeth annibynnol** yn gymorth gan berson hyfforddedig nad yw'n rhan o'r cyngor a'r bwrdd iechyd.



Maen nhw'n helpu pobl i ddeall eu hawliau a rhannu eu barn a'u dewisiadau am ofal a chymorth.



Nid yw eiriolaeth bob amser yn cael ei gofnodi'n glir.



Dylai arweinwyr gynnig eiriolaeth annibynnol yn amlach.



Nid yw rhai pobl a gofalwyr bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu clywed neu yn rhan o gynllunio a phenderfyniadau.



Dylai arweinwyr wneud yn siŵr bod cynlluniau a phenderfyniadau yn cynnwys barn pobl.



Nid yw gwasanaethau iechyd bob amser yn casglu ac yn defnyddio adborth pobl.



Dylai arweinwyr wella sut mae barn a phrofiadau pobl yn cael eu defnyddio i wneud gwasanaethau iechyd yn well.



Pan nad oes digon o staff, neu pan fydd staff yn sâl, gall effeithio ar ofal pobl. Ni all pobl bob amser weld yr un staff. Weithiau mae'n rhaid i bobl aros am gefnogaeth barhaus.



Dylai arweinwyr wella eu cynlluniau i wneud y canlynol:

- **Gwneud yn siŵr bod digon o staff.**
- **Cefnogi iechyd a lles staff.**

Gwaith da



Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol o wahanol dimau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae nyrsys a therapyddion arbenigol yn helpu i wirio anghenion pobl.



Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i roi cefnogaeth dda i bobl. Maen nhw'n helpu pobl i gadw'n iach ac yn atal problemau rhag gwaethygu.



Dywedodd pobl a gofalwyr wrthym fod gwasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant** yn dda.



Mae **seibiant** yn rhoi seibiant byr i ofalwyr. Mae rhywun arall yn darparu gofal tra byddant yn cael seibiant.



Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael y gwasanaethau hyn yn lleol. Rhaid i rai pobl sydd â mwy o anghenion gofal deithio y tu allan i'r ardal leol.



Mae gwasanaethau dydd yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu wneud y canlynol:

- Dysgu sgiliau newydd.
- Cael cymorth gan wasanaethau eraill.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau.



Mae'r cyngor yn defnyddio **Taliadau Uniongyrchol** yn dda. Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian y gall pobl ei ddefnyddio i brynu eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain.



Mae hyn yn rhoi dewis a rheolaeth i bobl dros eu gofal a'u cefnogaeth.



Ond gall fod yn anodd i bobl gael **cynorthwydd personol**. Mae **cynorthwydd personol** yn helpu pobl gyda thasgau bob dydd.



Mae Timau Anabledd Dysgu Cymunedol yn helpu pobl i gael a defnyddio gwasanaethau iechyd. Maen nhw'n gwneud **addasiadau rhesymol**.



Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau sy'n helpu pobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau yn haws.



Mae hyn yn waith da, ond nid yw'n digwydd ym mhob gwasanaeth trwy'r amser.

Pethau sydd angen bod yn well



Nid yw pobl bob amser yn cael help a chefnogaeth yn ddigon cynnar. Mae rhestrau aros a phrinder staff.



Weithiau mae anghenion iechyd a gofal pobl yn gwaethygu cyn iddynt gael cefnogaeth.



Dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd wella sut maen nhw'n rheoli gwasanaethau a rhestrau aros.



Nid yw pobl yn cael yr un mynediad at ofal, meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwiriadau iechyd.



Nid yw gwybodaeth am bobl bob amser yn cael ei rhannu rhwng gwasanaethau.



Dylai'r bwrdd iechyd wneud cynlluniau gwell i wella sut mae pobl yn cael gofal a chymorth. A gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am bob gwasanaeth.



Nid yw **asesiadau'r gofalwr** bob amser yn cael eu cynnig.



Mae **asesiad gofalwr** yn gwirio pa gymorth sydd ei angen ar ofalwyr di-dâl i'w helpu i barhau i ofalu.



Pan fydd asesiadau'n cael eu gwneud, maen nhw'n dda. Ond nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi neu eu gwirio'n iawn.



Rhaid i'r cyngor wella sut mae'n cofnodi ac yn gwirio asesiadau gofalwyr.



Nid yw cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn cael eu gwirio mor aml ag y mae'r gyfraith yn dweud y dylent fod.



Mae hyn yn golygu efallai na fydd cynlluniau yn diwallu anghenion pobl.



Rhaid i arweinwyr wneud yn siŵr bod yr holl gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu gwirio ar amser.



Nid yw anghenion pobl bob amser yn cael eu gwirio eto pan fydd eu bywyd yn newid.



Dylai'r cyngor wneud cynlluniau gwell ar gyfer gwirio anghenion pobl. Dylent ddweud pryd mae angen i wiriadau ddigwydd eto.



Mae yna weithgareddau cymunedol. Ond mae'n anodd i bobl glywed amdanynt a chymryd rhan.



Dylai'r cyngor ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae hyn yn helpu pobl i gadw'n iach a chael cefnogaeth.

Partneriaeth

Gwaith da



Mae staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar draws gwasanaethau anabledd dysgu.



Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i wneud y canlynol:

- Gwirio anghenion cymorth pobl.
- Cynllunio ac adolygu cymorth.



Mae timau gyda staff o wahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau a chefnogi pobl.



Mae'r Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol yn rhoi cyngor arbenigol i wasanaethau iechyd eraill.



Gall systemau cyfrifiadurol ei gwneud hi'n anoddach i wasanaethau weithio gyda'i gilydd. Ond mae staff yn dal i weithio'n dda gyda'i gilydd.



Mae darparwyr cymorth o'r tu allan i'r cyngor a'r bwrdd iechyd hefyd yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau.



Maen nhw'n rhannu gwybodaeth â'i gilydd i helpu i wneud penderfyniadau am gefnogaeth pobl.



Mae timau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i benderfynu ydy rhywun angen **Gofal Iechyd Parhaus y GIG**.



Mae **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** yn ofal parhaus rhad ac am ddim i bobl sydd angen gofal iechyd yn bennaf.

Pethau sydd angen bod yn well



Gall y camau ar gyfer cael iechyd a gofal cymdeithasol fod yn wahanol mewn gwahanol wasanaethau. Nid ydynt bob amser yn glir.



Nid yw rolau a chyfrifoldebau staff bob amser yn glir.



Yn aml mae problemau pan fydd pobl yn symud i wahanol wasanaethau. Neu pan fydd nifer o wasanaethau arbenigol yn rhan o'r broses.



Dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd helpu pobl i gael y gefnogaeth gywir gan wahanol wasanaethau ar yr adeg iawn.



Nid yw pobl a theuluoedd bob amser yn rhan o gynllunio gwasanaethau.



Dylai arweinwyr gynnwys pobl a theuluoedd yn fwy mewn ymdrechion i wella gwasanaethau.

Gwaith da



Mae gwasanaethau yn cael eu rhedeg yn dda. Mae gwasanaethau yn cael eu gwirio'n aml.



Mae polisiau clir, gwiriadau a hyfforddiant yn helpu gwasanaethau i weithio'n dda. Maen nhw hefyd yn helpu i gadw pobl yn ddiogel.



Mae rheolwyr a staff yn gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau cyflym a diogel i gadw pobl yn ddiogel.



Mae cofnodion yn esbonio penderfyniadau'n glir. Maen nhw'n dangos bod problemau'n cael eu trin yn gyflym ac yn dda.



Mae'r **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn cael eu defnyddio'n ofalus ac yn cael eu rheoli'n dda.



Mae'r **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn broses gyfreithiol. Maen nhw'n cael eu defnyddio pan na all person benderfynu am ei ofal neu ei driniaeth ei hun.



Maen nhw'n caniatáu i staff gyfyngu ar ryddid rhywun i'w cadw'n ddiogel.



Mae yna berson arweiniol sy'n helpu staff i ddeall y gyfraith hon a'i dilyn yn iawn.



Mae systemau da ar gyfer gwirio a rheoli risgiau.



Mae gwahanol staff yn gweithio gyda'i gilydd i wirio risgiau. Maen nhw'n delio â phryderon yn gyflym.



Mae hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth.



Mae cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion bellach yn dechrau yn gynharach.



Mae timau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc a theuluoedd yn ystod y newid hwn.

Pethau sydd angen bod yn well



Nid yw'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol** bob amser yn cael ei defnyddio yn yr un modd.



Mae'r **Ddeddf Galluedd Meddyliol** yn gyfraith. Mae'n amddiffyn pobl nad ydynt yn gallu gwneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain.



Mae staff yn gwirio a all person wneud penderfyniad. Gelwir hyn yn **Asesiad Galluedd Meddyliol**.



Os na allant, mae staff yn gwneud **penderfyniad er lles pennaf**. Mae hyn yn golygu dewis yr hyn sydd fwyaf diogel ac sydd orau i'r person hwnnw.



Nid yw'r penderfyniadau hyn bob amser yn cael eu gwneud neu eu cofnodi'n glir.



Rhaid i'r cyngor wella sut mae'n defnyddio ac yn cofnodi:

- **Asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol.**
- **Penderfyniadau er lles pennaf.**



Nid yw gwasanaethau iechyd bob amser yn gwirio lles pobl sy'n cael gofal a thriniaeth.



Dylai'r bwrdd iechyd wella gwirio lles pobl. Bydd hyn yn eu helpu i ddeall sut mae gwasanaethau yn effeithio ar ddiogelwch, annibyniaeth ac ansawdd bywyd pobl.



Nid oes digon o staff iechyd â'r sgiliau cywir, fel meddygon a nyrsys arbenigol.




Dylai'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod ganddo ddigon o staff gyda'r sgiliau a'r profiad cywir i gefnogi pobl yn ddiogel.



Nid yw bob amser yn glir pa wasanaethau sy'n gyfrifol am wirio iechyd corfforol pobl. Yn enwedig pan fydd gwasanaethau gwahanol yn rhan o'r broses.



Nid yw risgiau iechyd yn cael eu canfod na'u trin yn gyflym.



Dylai'r bwrdd iechyd wneud cynlluniau cliriach ar gyfer gwirio iechyd corfforol pobl. Ac am ddod o hyd i risgiau iechyd a delio â nhw.

Beth sy'n digwydd nesaf



Rydym am i'r cyngor a'r bwrdd iechyd wella'r pethau sydd angen eu gwella.



Yn **Arolygiaeth Gofal Cymru**, byddwn yn gwirio'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y cyngor.



Dylai'r cyngor rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda gyda chynghorau eraill. Bydd hyn yn helpu i wella gwasanaethau ledled Cymru.



Yn **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**, byddwn yn gwirio pethau i'w wneud ag iechyd.



Bydd y bwrdd iechyd yn ysgrifennu Cynllun Gwella. Bydd yn dweud beth sydd angen newid, pwy fydd yn ei wneud, a phryd.



Gallwch ddarganfod sut rydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth yn: arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol



Fe wnaethom ni gynnig y dewis i bobl gymryd rhan yn y Gymraeg, ond doedd neb eisiau ei ddefnyddio.



Diolch i'r bobl, y staff a'r partneriaid a helpodd gyda'n gwiriadau.

WG 55131
ISBN 978-1-80853-221-4